

Cylch Gorchwyl:

Y PWYLLGOR DISWYDDO

Yn adrodd i'r: Cyngor (er gwybodaeth yn unig)

Yn cwrdd: i'w bennu gan y Cadeirydd, er mwyn i'r Pwyllgor allu cadw at y terfynau amser angenrheidiol

Adolygydd y cylch gorchwyl ddiwethaf: Gorffennaf 2022; diwygiwyd ddiwethaf: Gorffennaf 2018; ac i'w adolygu nesaf: Gorffennaf 2024

Aelodau:

- 1 Aelod Annibynnol (Cadeirydd), o blith aelodau'r Cyngor
- 2 Aelod Annibynnol, o blith aelodau'r Cyngor
- 1 Aelod o'r Senedd
- 1 Aelod o'r Staff Anacademaidd

5 aelod.

Cworwm: 3 aelod, a bwrw bod o leiaf ddau Aelod Annibynnol yn bresennol.

Yn gweinyddu:

- Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, neu enwebai
- Fel y gwêl y Cadeirydd yn dda, gwahoddir swyddogion eraill y Brifysgol i gyfarfodydd, fel y bo'n briodol.

Cylch gwaith:

Cyfansoddwyd y Pwyllgor Diswyddo i graffu ar gynigion i wneud newidiadau i wasanaeth neu swyddogaeth a allai beri goblygiadau sylweddol o ran strwythur staffio uned academaidd neu wasanaeth, ac i benderfynu yn eu cylch.

Bydd unrhyw gynigion o'r fath yn cael eu gweithredu'n unol â'r Ordinhad perthnasol (y 'Polisi Osgoi Diswyddo'), ac fe'u hystyrir yn y lle cyntaf gan Weithrediaeth y Brifysgol, a fydd yn cyflwyno argymhelliad addas i'r Pwyllgor Diswyddo.

Cylch gorchwyl:

- Ystyried argymhelliad gan Weithrediaeth y Brifysgol ynghylch unrhyw gynig lle y nodir bod angen gwneud newidiadau i swyddi neu leihau eu nifer, a phenderfynu a ddylid derbyn neu wrthod y cynnig mewn egwyddor.
- Ystyried cynnig terfynol wedi i'r cyfnod ymgynghori priodol ddod i ben, a phenderfynu a ddylid gwrthod neu dderbyn y cynnig terfynol.

Gweithredu

Bydd yr aelodau'n derbyn holl waith papur y Pwyllgor o leiaf bum diwrnod gwaith cyn pob cyfarfod ffurfiol. Bydd unrhyw eithriadau i hyn yn digwydd fel y gwêl y Cadeirydd yn dda.

Fel y gwêl y Cadeirydd yn dda, gall y Pwyllgor Diswyddo gyflawni ei ddyletswyddau drwy gyfrwng cyfarfod ffurfiol o'r Pwyllgor, neu drwy ohebiaeth electronig rhwng aelodau'r Pwyllgor. Bydd y cyfryw benderfyniadau a wneir y tu allan i gyfarfod ffurfiol o'r Pwyllgor yn cael eu dogfennu'n llawn, a chyflwynir adroddiad arnynt i gyfarfod llawn nesaf y Pwyllgor Diswyddo.

Cedwir cofnodion llawn o bob cyfarfod ffurfiol o'r Pwyllgor a'u cyflwyno i gyfarfod nesaf y Cyngor er gwybodaeth yn unig; ni fydd angen cymeradwyaeth.